O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

**2014 Rhif 2775 (Cy. 281)**

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 319B a 333 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990").

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu rhagflaenu gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014, a fewnosododd adran 319B yn Neddf 1990.

Mae adran 319B o Ddeddf 1990 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r weithdrefn ar gyfer rhai achosion yng Nghymru, sef achosion ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu hatgyfeirio at Weinidogion Cymru o dan adran 77 ac apelau o dan adrannau 78, 174, 195 a 208 o Ddeddf 1990. Rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r weithdrefn ar gyfer achosion o'r fath cyn diwedd y cyfnod rhagnodedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi mai saith niwrnod gwaith o'r dyddiad perthnasol yw'r cyfnod hwnnw, sy'n cael ei ddiffinio at y dibenion hyn.

Paratowyd asesiad effaith mewn perthynas â'r offeryn hwn. Gellir cael copïau oddi wrth Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2775 (Cy. 281)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Hydref 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *17 Hydref 2014* |
| *Yn dod i rym* | *12 Tachwedd 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 319B(**1**) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 333 o'r Ddeddf honno(**2**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Tachwedd 2014.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

(**1**) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 319B o Ddeddf 1990 gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014, O.S. 2014/2773 (Cy.280).

(**2**) Mae diwygiadau i adran 333 o Ddeddf 1990 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**Cyfnod rhagnodedig**

**2.**—(1) Saith niwrnod gwaith o'r dyddiad perthnasol yw'r cyfnod rhagnodedig at ddibenion adran 319B(3) o Ddeddf 1990.

(2) Ym mharagraff (1)—

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ŵyl y Banc nac yn ŵyl gyhoeddus arall yng Nghymru; ac

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*relevant date*") yw—

(a) o ran atgyfeiriadau o dan adran 77(**1**) o Ddeddf 1990, y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o'r atgyfeiriad gan yr awdurdod cynllunio lleol;

(b) o ran apêl o dan adran 78(**2**) o Ddeddf 1990, y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cael y ffurflen wedi'i llenwi a'r dogfennau a bennir yn erthygl 26(1) a (3) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**3**);

(c) o ran apêl o dan adran 174(**4**) o Ddeddf 1990, y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o'r apêl o dan adran 174(3) ynghyd â datganiad o'r apêl a gyflwynwyd yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003(**5**);

(d) o ran apelau o dan adran 195(**6**) o Ddeddf 1990, y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o'r apêl gan y ceisydd; ac

(e) o ran apelau o dan adran 208(**7**) o Ddeddf 1990, y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o'r apêl gan y ceisydd.

---

(**1**) Mae diwygiadau i adran 77 o Ddeddf 1990 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Mae diwygiadau i adran 78 o Ddeddf 1990 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) O.S. 2012/801 (Cy. 110).

(**4**) Diwygiwyd adran 174 o Ddeddf 1990 gan adran 6(1) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991; adran 63 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 a pharagraffau 2 a 5 o Atodlen 17 iddi; a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 1) 2004. Ceir diwygiadau eraill i adran 174 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**5**) O.S. 2003/394 (Cy. 394)

(**6**) Diwygiwyd adran 195 gan adran 32 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 a pharagraff 32 o Atodlen 7 iddi; ac adran 197 o Ddeddf Cynllunio 2008 a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 11 iddi.

(**7**) Mae diwygiadau i adran 208 o Ddeddf 1990 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

14 Hydref 2014